

**Prawf Pop: Ail Isradd a Thrydydd Isradd**

Enw: .....

1. Cylchwch yr atebion cywir isod.

$5^2 = 10$

$6^2 = 36$

$7^2 = 14$

$8^2 = 64$

$2^3 = 8$

$3^3 = 9$

$4^3 = 12$

$5^3 = 125$

[4]

2. Parwch yr atebion cywir efo saethau.

$\sqrt{9}$

1

$\sqrt[3]{64}$

2

$\sqrt{25}$

3

$\sqrt[3]{8}$

4

$\sqrt{1}$

5

[5]

3. Atebwch y rhain heb ddefnyddio cyfrifiannell.

(a)  $7^2 + 2^2$

(b)  $6^3$

(c)  $\sqrt{64} + \sqrt[3]{343}$

.....  
.....  
.....

.....  
.....  
.....

.....  
.....  
.....

[6]

4. Atebwch y rhain gan ddefnyddio cyfrifiannell.

(a)  $11^3 - 24^2$

(b)  $\sqrt{2704} + \sqrt[3]{2197}$

(c)  $\sqrt[3]{24389} \times 2^5$

.....

.....

.....

[3]

**Prawf Pop: Ffactorau a Rhifau Cysefin**

Enw: .....

1. Beth yw ffactorau 12?


×  = 12    
 ×  = 12    
 ×  = 12

Ffactorau 12 yw ..... [3]

2. Beth yw ffactorau 90?

Ffactorau 90 yw ..... [6]

3. Meddyliwch am **un** rhif i fynd i bob rhan..... [2]



4. (a) Beth sy'n gwneud rhif yn rhif cysefin? [1]

(b) Ydy 185 yn rhif cysefin? Ydy  Nac Ydy  [1]

Rheswm: .....

(c) Rhowch gylch o amgylch y rhifau cysefin isod: [2]

20	21	22	23	24	25	26	27	28	29	30
----	----	----	----	----	----	----	----	----	----	----

**Prawf Pop: Diagramau Venn**


Enw: .....

1. Cwblhewch y diagramau Venn isod.

(a)  $\varepsilon = \{1,2,3,4,5,6,7,8,9,10\}$

$A$  = yr odrifau

$B$  = lluosrifau 3




(b)  $\varepsilon = \{1,2,3, \dots, 15\}$

$A$  = lluosrifau 4

$B$  = rhifau un digid


$C$  = rhifau sgwâr



[7]

2. Mae 50 person yn mynychu clyweliad ar gyfer sioe dalent. Mae 33 person yn gallu canu; mae 21 person yn gallu chwarae offeryn; ac mae 8 person yn gallu canu a chwarae offeryn.

(a) Llenwch y diagram Venn isod i ddangos y wybodaeth uchod.



[5]

(b) Sawl person yn y clyweliad sydd ddim yn gallu canu na chwarae offeryn?

.....

**Prawf Pop: Y Ffur Indecs**

Enw: .....

1. Ysgrifennwch y rhifau canlynol fel lluoswm eu ffactorau cysefin.

(a) 30

(b) 140

[Empty dashed box for answer (a)]

[Empty dashed box for answer (b)]

Ateb: .....

Ateb: .....

[4]

2. Ysgrifennwch y rhifau canlynol yn y ffurf indecs.

(a) 44

(b) 160

[Empty dashed box for answer (a)]

[Empty dashed box for answer (b)]

Ateb: .....

Ateb: .....

[4]

3. Cylchwch y rhifau sgwâr isod.

$729 = 3^6$

$648 = 2^3 \times 3^4$

$196 = 2^2 \times 7^2$

$5476 = 2^2 \times 37^2$

$8748 = 2^2 \times 3^7$

$22275 = 3^4 \times 5^2 \times 11$

[3]

4. Beth yw ail isradd y rhif  $400 = 5^2 \times 2^4$ ?


.....  
.....  
.....

[2]

5. Beth yw'r rhif cyfan lleiaf sy'n rhaid lluosio'r rhif  $14175 = 3^4 \times 5^2 \times 7$  ag ef er mwyn ei newid i fod yn rhif sgwâr?

.....

[1]



# Prawf Pop: Ffactor Cyffredin Mwyaf a Lluosrif Cyffredin Lleiaf

Enw: .....

1. Darganfyddwch Ffactor Cyffredin Mwyaf a Lluosrif Cyffredin Lleiaf 30 a 54.


*Ateb:* Y ffactor cyffredin mwyaf yw ..... a'r lluosrif cyffredin lleiaf yw .....

[5]

2. Mae bysiau i Wrecsam yn gadael gorsaf fysiau bob 20 munud. Mae bysiau i Gaer yn gadael yr un orsaf fysiau bob 15 munud. Mae bws i Wrecsam a bws i Gaer yn gadael yr orsaf fysiau am 09:35. Pryd fydd y tro nesaf y bydd bws yn gadael i'r ddau le ar yr un pryd?

*Ateb:* Mi fydd y bysiau yn gadael i'r ddau le ar yr un pryd nesaf am .....

[2]



# Prawf Pop: Dilyniannau

Enw: .....

1. Darganfyddwch y rhif nesaf yn y dilyniannau canlynol.

(a) 8, 15, 22, 29, 36,

(b) 7, 14, 28, 56, 112,

(c) 10, 12, 16, 22, 30,

(ch) 2, 3, 5, 8, 12, 17,

[4]

2. Eglurwch, **mewn geiriau**, sut mae'n bosib ffeindio'r rhif nesaf yn y dilyniannau canlynol.

(a) 1280, 320, 80, 20, 5, .....

.....

(b) 85, 74, 63, 52, 41, .....

.....


(c) 5, 50, 500, 5000, 50000, .....

.....


(ch) 1, 1, 2, 3, 5, 8, 13, 21, .....

..... [4]


3. (a) Lluniwch patrwm 4 yn y blwch.



Patrwm 1



Patrwm 2



Patrwm 3



Patrwm 4

(b) Cwblhewch y tabl.

Rhif y patrwm	1	2	3	4	5	6	7
Cyfanswm y sgwariau							
Nifer y sgwariau glas							
Nifer y sgwariau melyn							

[4]

4. Heb greu llun, cyfrifwch faint o gylchoedd fydd ym mhatrwm 10.



Patrwm 1



Patrwm 2



Patrwm 3



Patrwm 4



Patrwm 5


[3]

Lle ar gyfer gwaith cyfrifo:


/15

**Prawf Pop: Peiriannau Rhif a Llundio Mynegiadau** Enw: .....


1. Llenwch y bylchau yn y tablau canlynol. [11]




Mewnbwn	Allbwn
11	
	11
$n$	



Mewnbwn	Allbwn
20	
	8
$n$	



Mewnbwn	Allbwn
9	
	8
1	



Mewnbwn	Allbwn
5	26
10	101
$n$	

2. Mae yna  $x$  o farblis mewn jar. [5]

Ysgrifennwch fynegiad, yn nhermau  $x$ , ar gyfer faint o farblis sydd mewn jar sy'n cynnwys...


4 marblen ychwanegol	.....
3 marblen yn llai	.....
Hanner y marblis	.....
Tair gwaith cymaint o farblis	.....
1 yn fwy na phedair gwaith cymaint o farblis	.....



3. Llenwch y bylchau coll yn y tablau canlynol. (Mae  $n$  yn cynrychioli unrhyw rif.) [4]

→ Adio tri →				
		$n$		

→ Lluosi efo dau →				
		$n$		



**Prawf Pop: Amnewid a Fformiwlaù**

Enw: .....

1. Amnewidiwch y gwerthoedd  $x = 4, y = 2, z = 5$  i mewn i'r mynegiadau algebraidd canlynol.

(a)  $3x$

(b)  $5y - z$

(c)  $x^2$

Ateb: ..... Ateb: ..... Ateb: .....

[3]

2. Amnewidiwch y gwerthoedd  $d = 3, e = 4, f = 8$  i mewn i'r mynegiadau algebraidd canlynol.

(a)  $\frac{f}{e}$

(b)  $\frac{4d+2f}{7}$

(c)  $2d^2$

Ateb: ..... Ateb: ..... Ateb: .....

[3]


3. Mae'r fformiwla  $P = 2a + 2b$  yn cyfrifo perimedr  $P$  petryal sydd efo hyd  $a$  a lled  $b$ . Os yw hyd petryal yn 5 cm a'i led yn 7 cm, defnyddiwch y fformiwla i gyfrifo ei berimedr.

Ateb: ..... [2]

4. Mae'r fformiwla Buanedd =  $\frac{\text{Pellter}}{\text{Amser}}$  yn cyfrifo **buanedd** gwrthrych o wybod y **pellter** sydd wedi cael ei deithio mewn **amser** penodol.

Beth yw buanedd car sy'n teithio 90 milltir mewn 2 awr?

Ateb: ..... [2]



**Prawf Pop: Casglu Termâu a Datrys Hafaliadau**

Enw: .....

1. Symleiddiwch y mynegiadau canlynol.

(a)  $3x + 6x + 2x$

(b)  $4x + 7x - x$

(c)  $8z^2 - 5z^2$

Ateb: ..... Ateb: ..... Ateb: ..... [3]

2. Symleiddiwch y mynegiadau canlynol.

(a)  $2a + 4b + 3a + 9b$

(b)  $8e + 9g - 2e + 4g$

Ateb: ..... Ateb: ..... [2]

3. Datrysych yr hafaliadau canlynol.

(a)  $x + 4 = 9$

(b)  $6x = 18$

Ateb: ..... Ateb: .....

(c)  $y - 6 = 3$

(ch)  $\frac{x}{2} = 6$

Ateb: ..... Ateb: ..... [4]

4. Datrysych yr hafaliadau canlynol.

(a)  $2x + 5 = 19$

(b)  $3y - 2 = 31$

.....  
.....  
.....  
.....

.....  
.....  
.....  
..... [4]

(c)  $5x - 1 = 3x + 55$

(ch)  $9x + 3 = 6x + 27$

.....  
.....  
.....  
.....

.....  
.....  
.....  
..... [4]

5. Hydroedd chwe ochr hecsagon afreolaidd, mewn centimetrau, yw

$x$        $x + 3$        $x - 2$        $2x$        $x + 5$        $4x + 1$

Perimedr yr hecsagon yw 97 centimetr.

Lluniwch hafaliad yn nhermau  $x$  a datrysych ef i ddarganfod gwerth  $x$ . [4]

.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....  
.....

**Prawf Pop: Mesurau**

Enw: .....

/20

1. Llenwch y bylchau.

(a) 1 m = \_\_\_\_\_ cm

(b) 1 kg = \_\_\_\_\_ g

(c) 1 litr = \_\_\_\_\_ ml

(ch) 4 cm = \_\_\_\_\_ mm

(d) 1 stôn = \_\_\_\_\_ pwys

(dd) 1 litr = \_\_\_\_\_ cl

(e) 2 km = \_\_\_\_\_ m

(f) 1 galwyn = \_\_\_\_\_ pint

(ff) 1 fodfedd ≈ \_\_\_\_\_ cm

(g) 1 kg ≈ \_\_\_\_\_ pwys

(ng) 24 modfedd = \_\_\_\_\_ troedfedd

(h) 32 owns = \_\_\_\_\_ pwys


[12]

2. At ba fesuriadau mae'r saethau'n pwyntio?

(a) \_\_\_\_\_ cm

(b) \_\_\_\_\_ cm

(c) \_\_\_\_\_ cm




(ch) \_\_\_\_\_ modfedd

(d) \_\_\_\_\_ modfedd

[5]

3.

Graff trawsnewid rhwng tymheredd mewn graddau Celsius a thymheredd mewn graddau Fahrenheit



Defnyddiwch y graff uchod i lenwi'r bylchau canlynol.

(a) 20°C = \_\_\_\_\_ °F

(b) 100°F = \_\_\_\_\_ °C

(c) 200°C = \_\_\_\_\_ °F

[3]

**Prawf Pop: Pedrochrau**

Enw: .....

1. Beth yw enw'r pedrochr a ddangosir ar y dde? .....

[1]

2. Enwch bob pedrochr sydd efo **dau bâr** o ochrau paralel.

.....

[2]

3. Gwir neu gau? Mae pob paralelogram yn rhombws. ....

[1]


4. Defnyddiwch gwmpas a phren mesur i lunio barcut ble mae'r hydoedd yn 2.5 cm a 6 cm, a hyd y groeslin fwyaf yw 8 cm.



[3]

5. Darganfyddwch faint yr onglau sydd wedi'u marcio.  
(Nid yw'r diagram wedi'i lunio wrth raddfa.)

[2]




$x = \dots\dots\dots^\circ, y = \dots\dots\dots^\circ$

**Prawf Pop: Perimetr ac Arwynebedd**

Enw: .....

1. Cyfrifwch berimetr ac arwynebedd y siapiau canlynol.


(a)




Perimetr = .....

Arwynebedd = .....


(b)



(c)




(ch)



Perimetr = ..... Perimetr = .....

Arwynebedd = ..... Arwynebedd = .....

(d)



Perimetr = ..... Perimetr = .....


Arwynebedd = ..... Arwynebedd = .....

[10]

2. Darganfyddwch amcangyfrif ar gyfer arwynebedd y siâp isod.

(Mae pob sgwâr yn cynrychioli arwynebedd o 1 cm<sup>2</sup>.)

[2]




**Prawf Pop: Solidau**


Enw: .....

1. Enwch y solidau isod.


(a)



(b)



(c)



..... [3]


2. (a) Sawl fertig sydd gan unrhyw giwboid? .....

(b) Sawl ymyl sydd gan unrhyw silindr? .....

(c) Sawl wyneb sydd gan unrhyw gôn? .....

[3]


3. Lluniwch 2 rwyd wahanol ar gyfer ciwb.




[2]

4. Darganfyddwch gyfaint y ciwboidau canlynol.

(a)



(b)




.....

/12

[4]

**Prawf Pop: Y Modd**

Enw: .....



1. Cyfrifwch y modd ar gyfer y setiau canlynol o ddata.

(a) 3, 4, 7, 8, 8, 9, 10

(b) 30, 10, 20, 70, 80, 40, 90

(c) 5, 2, 4, 5, 1, 4, 8, 9, 3

(ch) Glas, Coch, Melyn, Du, Piws, Coch, Glas

[4]

2. Dyma daldra saith person:

Gwilym	Heulwen	Steffan	Seren	Ceri	Sera	Huw
156 cm	160 cm	152 cm	154 cm	154 cm	162 cm	170 cm

(a) Beth yw modd taldra'r saith person?

(b) Sawl person sy'n fyrrach na'r modd?

(c) Enwch bawb sy'n dalach na'r modd:

[3]

3. Holwyd 30 person sawl gwaith oeddent wedi bod i'r archfarchnad (*supermarket*) dros y pythefnos diwethaf.

(a) Beth yw'r modd ar gyfer nifer yr ymweliadau i'r archfarchnad?

(b) A yw'r mwyafrif o'r bobl wedi bod i archfarchnad dros y pythefnos diwethaf?

Nifer o weithiau	Amllder
0	4
1	9
2	8
3	5
4	4

[2]

4. Dyma'r prisiau i brynu tocyn cartref mewn 2 gynghrair pêl-droed wahanol.

Cynghrair 1 £25 £30 £30 £40 £35 £35 £35 £40 £35 £45

Cynghrair 2 £15 £45 £50 £55 £60 £50 £35 £45 £50 £25

Defnyddiwch y modd i benderfynu pa gynghrair, ar gyfartaledd, sy'n cynnig y prisiau rhataf i gefnogwyr.

[2]

5. Darganfyddwch y dosbarth modd ar gyfer y data ar y dde, sy'n dangos yr amser cymerodd 50 person i gwblhau ras 100 m.

Amser ( <i>a</i> eiliad)	Amllder
$10 \leq a < 12$	7
$12 \leq a < 14$	14
$14 \leq a < 16$	24
$16 \leq a < 18$	3
$18 \leq a < 20$	2

[1]




# Prawf Pop: Diagramau Llinellau Fertigol

Enw: .....

1. Lluniwch ddiagram llinellau fertigol ar gyfer y data canlynol, sy'n dangos hoff archfarchnad aelodau o glwb gwyddbwyll.

Tesco	9	Lidl	8	Marks & Spencer	6
Asda	5	Aldi	2	Waitrose	4



[4]

2. Edrychwch ar y diagram llinellau fertigol ar y dde.

(a) Sawl person sy'n hoffi'r lliw pinc? .....


(b) Beth yw'r lliw lleiaf poblogaidd? .....

(c) Sawl person sydd yn nosbarth 10U? .....

(ch) Cwblhewch y frawddeg: Mae ..... yn fwy o ddysgwyr yn hoffi'r lliw oren o'i gymharu â'r lliw coch.

(d) Beth yw modd hoff liw y dosbarth? .....

**Hoff liw disgyblion  
10U**




[5]

**Prawf Pop: Graffiau Llinell**

Enw: .....

1. Lluniwch graff llinell ar gyfer y data canlynol, sy'n dangos hoff anifail anwes aelodau o glwb dawnsio.


Cath	8	Ci	7	Cwningen	4
Neidr	2	Mochyn Cwta	3	Bwji	1



[4]

2. Edrychwch ar y graff llinell ar y dde.

**Graff Llinell i ddangos gwerthiant hufen ia**




(a) Sawl hufen ia a werthwyd ddydd Iau? .....

(b) Pa ddiwrnod oedd hi oeraf, yn eich barn chi?  
.....

(c) Sawl hufen ia a werthwyd trwy'r wythnos gyfan? .....

(ch) Beth yw amrediad nifer yr hufen ia a werthwyd yn ddyddiol yn ystod yr wythnos?  
.....

[4]



**Prawf Pop: Diagramau Gwasgariad**

Enw: .....

1. Brasluniwch ddiagram gwasgariad sy'n dangos

(a) Cydberthyniad positif



(b) Dim cydberthyniad




[2]

2. Mae'r data canlynol yn dangos y tymheredd am hanner dydd bob dydd dros un wythnos, ynghyd â sawl gwresogydd (*heater*) a werthwyd mewn siop dros yr un cyfnod.

<b>Tymheredd (°C)</b>	12	10	4	7	11	11	9
<b>Gwerthiant Dyddiol</b>	5	7	18	12	6	8	10

(a) Plotiwch y data ar y diagram gwasgariad isod.




(b) Pa fath o gydberthyniad sy'n cael ei ddangos yn y diagram gwasgariad?


.....

(c) Tynnwch â'r llygad llinell ffit orau ar eich diagram gwasgariad.

(ch) Amcangyfrifwch werthiant gwresogyddion yn y siop ar ddiwrnod ble mae'r tymheredd yn 6°C. ....

[6]





1. Defnyddiwch “dim siawns”; “siawns isel”; “siawns deg”; “siawns dda” neu “sicr” i ddisgrifio tebygolrwydd y digwyddiadau canlynol.

(a) Bydd rhywun yn Llandudno yn prynu eitem ar wefan Amazon yfory.

(b) Os yw heddiw yn ddydd Iau, bydd yfory yn ddydd Mercher.

(c) Os yw heddiw yn ddydd Iau, bydd yfory yn ddydd Gwener.

(ch) O edrych ar gloc digidol i ddarllen yr amser, bydd nifer y munudau yn eilrif.

[4]

2. Mae gan Steffan flwch sy'n cynnwys 24 o beli. Mae 14 ohonyn nhw'n lliw gwyrdd ac mae 10 yn lliw brown. Mae Steffan yn dewis un bêl ar hap o'r blwch hwn. Cylchwch yr ymadrodd gorau o'r rhai sydd wedi'u rhoi isod i ddisgrifio'r siawns bod Steffan yn dewis pêl lliw brown.

**dim siawns**

**annhebygol**

**siawns deg**

**tebygol**

**sicr**

[1]

3. Lluniwch raddfa tebygolrwydd. Marciwch y pwyntiau a, b, c, ch i ddangos pa mor debygol, yn eich tyb chi, yw pob un o'r canlynol.

(a) Bydd car lliw **coch** yn pasio heibio Ysgol y Creuddyn rhywbryd dros y 4 awr nesaf.

(b) Byddwch yn cael tu chwith (*tails*) wrth daflu darn arian.

(c) Byddwch yn cael rhif llai na 6 wrth daflu dis teg cyffredin.

(ch) Bydd YouTube yn stopio gweithio rhywbryd dros y 24 awr nesaf.

[6]

4. Pa mor debygol yw'r canlynol? (Atebwch efo rhif rhwng 0 ag 1.)

(a) Byddwch yn dal annwyd rhywbryd dros y tri mis nesaf. ....

(b) Bydd aelod o staff Ysgol y Creuddyn yn ennill y jacpot yn y loteri genedlaethol dros y penwythnos. ....

(c) Bydd hi'n sych trwy'r dydd ar ddiwrnod olaf y mis yma. ....

(ch) Rhywbryd yn eich bywyd, byddwch yn rhedeg marathon. ....

[4]

## **Prawf Pop: Rhifau Cyfeiriol**

Enw: .....

1. Ysgrifennwch y rhifau canlynol mewn trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf.

(a) 5, -2, 8, -8, 10

(b) -7, -4, 8, -1, -9, 0

.....

[2]

2. Ysgrifennwch y symbol < neu > rhwng y parau canlynol o rifau.

(a) -5 \_\_\_\_ 4

(b) -9 \_\_\_\_ -5

(c) 5 \_\_\_\_ -6

[3]

3. Llenwch y bylchau yn y tabl canlynol.

Tymheredd am 09:00	Tymheredd am 18:00	Newid mewn tymheredd
15°C		Lleihad 2°C
5°C	-1°C	
	-2°C	Cynnydd 2°C
-7°C	-5°C	
-1°C		Lleihad 3°C
	2°C	Cynnydd 8°C

[6]

4. Cyfrifwch:

(a)  $5 + -3$

(b)  $12 - -5$

(c)  $3 \times -4$

(ch)  $-12 \div -3$

.....

(d)  $-7 + -1$

(dd)  $-13 - -5$

(e)  $-5 \times -4$

(f)  $18 \div -3$

.....

[8]

5. Cwblhewch y brawddegau canlynol.

(a) Mae tynnu rhif negatif yr un peth ag \_\_\_\_\_

(b) Mae adio rhif negatif yr un peth â \_\_\_\_\_

(c) Mae llusosi rhif positif efo rhif negatif yn rhoi ateb sy'n \_\_\_\_\_

(ch) Mae llusosi rhif negatif efo rhif negatif yn rhoi ateb sy'n \_\_\_\_\_

[4]

6. Cwblhewch y tabl canlynol.

x	2	-4	
5	10		-30
	14		
-6			
9			

[11]

1. Cyfrifwch:

(a)  $35.2 + 7.68$

(b)  $9.6 - 2.34$

(c)  $84.6 \times 5$

(ch)  $14.88 \div 6$

--	--	--	--

.....

[4]

2. Ysgrifennwch y rhifau canlynol mewn trefn, o'r lleiaf i'r mwyaf.

6.24, 4.6, 2.06, 4.62, 6.2, 2.4, 4.26, 2.6, 6.42, 6.4, 4.2, 2.46

.....

[2]

3. (a) Ysgrifennwch y ganran 27% fel degolyn. ....

(b) Ysgrifennwch y ganran 4% fel degolyn. ....

(c) Ysgrifennwch y degolyn 0.92 fel canran. ....

(ch) Ysgrifennwch y degolyn 0.3 fel canran. ....

[4]


4. Cwblhewch y tabl canlynol.

Rhif Gwreiddiol	Talgrynnu i'r uned agosaf	Talgrynnu i'r 10 agosaf	Talgrynnu i un lle degol	Talgrynnu i ddau le degol	Talgrynnu i dri lle degol
42.6826					
8.9073					

[10]

5. Mae'n bosibl gosod rhodenni unfath benben (*end to end*), fel sy'n cael ei ddangos isod.

Hyd bob rhoden yw 17.5 cm.



Faint o'r rhodenni hyn sy'n gallu cael eu gosod, fel hyn, rhwng dau bwynt sy'n 4 metr i ffwrdd o'i gilydd?

.....

.....

.....

[4]


**Prawf Pop: Onglau efo Llinellau Paralel**

Enw: .....


/14

1. A yw'r paru o onglau canlynol yn onglau cyfatebol, yn onglau eiledol neu'n onglau mewdol?


(a)



(b)








(c)



.....


[3]

2. Cyfrifwch faint yr onglau sydd wedi'u marcio. (Nid yw'r diagramau wedi'u llunio wrth raddfa.)



[9]

3. Marciwch bob ongl sydd â'i faint yn hafal i faint ongl  $x$ .





[2]

**Prawf Pop: Cylchdro**

Enw: .....

(a) Cylchdrowch y petryal **ABCD**  $90^\circ$  yn glocwedd o amgylch y tarddbwynt.



(b) Cylchdrowch y triongl **ABC**  $90^\circ$  yn wrthglocwedd o amgylch y pwynt  $(-2, 1)$ .



[4]

(c) Cylchdrowch y triongl **ABC**  $180^\circ$  yn glocwedd o amgylch y pwynt  $(1, 0)$ .

(ch) Pa fath o gylchdro sy'n newid y triongl **ABC** i mewn i'r triongl **DEF**?



.....  
.....

[4]